# MORGAN, JOHN (1662 - 1701), clerigwr ac awdur

**Enw:** John Morgan
**Dyddiad geni:** 1662
**Dyddiad marw:** 1701
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** John Thomas Jones

Ganwyd yn sir Feirionnydd yn 1662. Ordeiniwyd ef yn ddiacon yn 1684, ac yn offeiriad yn 1685; bu'n gurad Llanllechid ac Aber, Sir Gaernarfon, 1685 hyd 1693(?). Yna, efrydydd yn Rhydychen, hyd 1697 yn ôl pob tebyg, pan wnaed ef yn ficer Aberconwy. (Nid yr un â John Morgan, ficer Matchin (1688 - 1734?), ei gyfoesydd.) Yng Nghonwy ysgrifennodd ei *Bloeddnad Ofnadwy yr Utcorn Diweddaf*, a gyhoeddwyd (wedi ei farw) yn 1704. Ceir copi o'r traethawd hwn a thraethawd arall tebyg iddo, sef *Ystyriaethau ar y Chwe peth diweddaf*, ynghyd â nifer o ganeuon yr awdur - y cwbl yn ei lawysgrifen ef ei hun - mewn math o *chap-book* yn dwyn yr enw ' Llyfr John Morgan ' sy'n awr yn llyfrgell Coleg y Brifysgol, Bangor (Bangor MS. 421). Ysgrifennai ryddiaith ragorol, ond cyffredin yw ei farddoniaeth. Bu farw 14 Medi 1701.

## Awdur

**John Thomas Jones**, (1894 - 1975)

## Ffynonellau


Foster, *Alumni Oxonienses*

J. C. Morrice, *Wales in the Seventeenth Century its literature and men of letters and action* (Bangor 1918)

A. Ivor Pryce, *Diocese of Bangor During Three Centuries, seventeenth to nineteenth century inclusive being a digest of the registers of the bishops* (1929)

*Conway Parish Register* (arg. Alice Hadley)

J. T. Jones yn *Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol*, xvii


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: John Morgan

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 29407630

Wikidata: Q18535818


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu